Senedd Cymru
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 6) ar y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio)

Mawrth 2023

1. Y cefndir

Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) Llywodraeth y DU

1. Cyflwynwyd y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio)[1] (y Bil) yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 8 Mehefin 2022. Noddir y Bil gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau.

2. Mae teitl hir y Bil yn nodi pwrpas y Bil fel a ganlyn:

> *"to make provision about the regulation of social housing; about the terms of approved schemes for the investigation of housing complaints; and for connected purposes."*

3. Cwblhaodd y Bil ei daith drwy Dŷ'r Arglwyddi ar 31 Hydref 2022, a chafodd ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin ar 31 Hydref 2022.[2] Cwblhaodd y Bil y cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin ar 29 Tachwedd. Cynhaliwyd y Cyfnod Adrodd a'r Trydydd Darlleniad ar 1 Mawrth 2023. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd dyddiad wedi'i drefnu eto ar gyfer ystyried diwygiadau Tŷ'r Cyffredin yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memoranda Rhif 2, Rhif 3, Rhif 4 a Rhif 5)

4. Yn unol â Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2, mae'n ofynnol gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fydd Bil perthnasol yn y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu ei chymhwysedd deddfwriaethol.

5. Ar 18 Awst 2022 gosododd Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd (y Gweinidog), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) gerbron y Senedd[3] mewn perthynas â'r Bil.

[1] Y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) fel y'i cyflwynwyd (HL Bill 21) (Saesneg yn unig)
[2] Y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio), fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi (Bill 177) (Saesneg yn unig)
[3] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio), Awst 2022

6. Ar 5 Hydref 2022, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol gerbon y Senedd (Memorandwm Rhif 2[4]) mewn perthynas â'r Bil, yn dilyn diwygiadau yn Nhŷ'r Arglwyddi.

7. Gwnaethom gyflwyno adroddiad ar y Memoranda hyn ar 22 Tachwedd 2022.[5]

8. Ar 17 Tachwedd 2022, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol pellach gerbron y Senedd (Memorandwm Rhif 3)[6] mewn perthynas â diwygiadau a gyflwynwyd i'w hystyried yn ystod y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi, a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2022.

9. Ar 6 Rhagfyr 2022, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol pellach gerbron y Senedd (Memorandwm Rhif 4)[7] mewn perthynas â diwygiadau a gyflwynwyd i'w hystyried yn ystod y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin, a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd.

10. Gwnaethom gyflwyno adroddiad ar y Memoranda hyn ar 13 Ionawr 2023.[8]

11. Ar 15 Chwefror 2023, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol arall (Memorandwm Rhif 5)[9] mewn cysylltiad â gwelliannau a gyflwynwyd ar gyfer y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin.

12. Gwnaethom gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm hwn ar 27 Chwefror 2023.[10]

13. Ar 28 Chwefror 2023, pleidleisiodd y Senedd o blaid rhoi ei chydsyniad i'r darpariaethau yn y Bil i'r graddau y maent o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y

[4] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2), y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio), Hydref 2022
[5] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio), Tachwedd 2022
[6] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3), y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio), Tachwedd 2022
[7] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4), y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio), Rhagfyr 2022
[8] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memoranda Rhif 3 a Rhif 4) ar y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio), Ionawr 2023
[9] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 5), y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio), Chwefror 2023
[10] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 5) ar y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio), Chwefror 2023

Senedd ac fel y'u nodir yn y Memorandwm ac ym Memoranda Atodol Rhif 2 i Rhif 5.[11]

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 6)

14. Ar 9 Mawrth 2023, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ychwanegol (Memorandwm Rhif 6)[12] mewn perthynas â'r Bil.

15. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar Femorandwm Rhif 6 erbyn 27 Mawrth 2023.[13]

Diweddariad ar y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm a'r Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memoranda Rhif 2, Rhif 3, Rhif 4 a Rhif 5)

16. Ym mharagraffau 21 i 25 o Femorandwm Rhif 6, mae'r Gweinidog yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa ers cyhoeddi'r memoranda cydsyniad deddfwriaethol cynharach:

- cyflwynwyd pedwar gwelliant i gymal 21 o'r Bil ar 27 Chwefror ar gyfer y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin na chawsant eu cynnwys ym Memorandwm Rhif 5[14];
- cynhaliwyd y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 1 Mawrth a derbyniwyd yr holl welliannau a restrir ym Memorandwm Rhif 5 ac ym Memorandwm Rhif 6[15];
- cynhaliwyd y trydydd darlleniad hefyd ar 1 Mawrth[16].

[11] Y Cyfarfod Llawn, 28 Chwefror 2023
[12] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 6), y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio), Mawrth 2023
[13] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 6) ar y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio), Mawrth 2023
[14] Memorandwm Rhif 6, paragraff 21
[15] Memorandwm Rhif 6, paragraff 25
[16] Memorandwm Rhif 6, paragraff 25

Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y gwelliannau a wnaed i'r Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

17. Mae paragraff 26[17] o Femorandwm Rhif 6 yn nodi barn Llywodraeth Cymru ar y gwelliannau a wnaed i gymal 21 o'r Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer, gan nodi:

> *"Diwygiwyd y cymal hwn i ganiatáu i'r rheoleiddiwr osod safonau i sicrhau bod gan y rhai sydd â chyfrifoldebau rheoli gyda darparwr cofrestredig gymwysterau ac arbenigedd priodol yn unol â'u rôl, neu'n gweithio tuag at feddu arnynt."*

Casgliadau Llywodraeth Cymru ym Memorandwm Rhif 6

18. Daw'r Gweinidog i'r casgliad a ganlyn:

> *"...rwyf o'r farn bod y gwelliannau i gymal 21 yn ddarpariaeth berthnasol at ddibenion Rheol Sefydlog 29, gan fod y newidiadau hyn yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (i'r graddau y maent yn berthnasol i ddarparwr cofrestredig o Loegr sydd â stoc dai yng Nghymru).*
>
> *Rwyf felly yn parhau i fod o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan Senedd y DU oherwydd dylai'r Bil a ddiwygiwyd yng nghyfnod adrodd Tŷ'r Cyffredin effeithio'n gadarnhaol ar y nifer bach o denantiaid darparwyr cofrestredig o Loegr sy'n byw yng Nghymru."*[18]

[17] Gweler hefyd Femorandwm Rhif 6, paragraffau 27 a 28
[18] Memorandwm Rhif 6, paragraffau 30 a 31

2. Ystyriaeth y Pwyllgor

19. Trafodwyd Memorandwm Rhif 6 yn ein cyfarfod ar 20 Mawrth 2023.[19]

20. Gwnaethom gytuno ar ein hadroddiad ar 27 Mawrth 2023.[20]

Ein barn ni

21. Rydym yn nodi bod Memorandwm Rhif 6 yn ymwneud â gwelliannau a gyflwynwyd yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin i gymal 21 o'r Bil.

Casgliad 1. Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru fod y gwelliannau i gymal 21 a restrir ym Memorandwm Rhif 6 yn ymwneud a diben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y disgrifir yn Rheol Sefydlog 29.

22. Gosodwyd ein hadroddiad ar Femorandwm Rhif 5 gerbron y Senedd ar 27 Chwefror 2023 a gwnaethom nodi ynddo fod rhagor o welliannau i'r Bil wedi eu cyflwyno y diwrnod hwnnw y gallent effeithio ar feysydd datganoledig ac felly sbarduno'r broses cydsyniad deddfwriaethol.

23. Yn ein hadroddiad ar Femorandwm Rhif 5, gwnaethom hefyd nodi bod y ffaith y gosodwyd pum memoranda cydsyniad yn dangos i ba raddau y mae'r Bil a gyflwynwyd i Senedd y DU wedi newid ers ei gyflwyno a'r graddau y mae'r newidiadau hyn yn effeithio ar feysydd datganoledig.

24. Rydym yn croesawu cam gweithredu'r Gweinidog i osod Memorandwm Rhif 6 gerbron y Senedd. Er i ni gydnabod ei fod yn ofynnol yn unol â'n Rheolau Sefydlog, mae hefyd yn helpu i sicrhau mwy o dryloywder yn ystod proses ddeddfu sy'n llawn diffygion.

25. Fodd bynnag, mae'r ffaith y gofynnwyd eisoes i'r Senedd wneud penderfyniad ynghylch a ddylid rhoi cydsyniad i'r darpariaethau perthnasol yn y Bil, oherwydd y pwynt y mae'r Bil wedi ei gyrraedd ym mhroses graffu Senedd y DU, yn tynnu sylw, unwaith eto, at ddiffygion difrifol y sefyllfa sydd ohoni lle y mae senedd wahanol yn deddfu ar gyfer Cymru ar faterion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

26. Nodwn hefyd y gallai safonau cymwysterau proffesiynol newydd yn Lloegr fod yn ddarostyngedig i Ran 3 o *Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020*.

[19] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Mawrth 2023
[20] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 27 Mawrth 2023